COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD IAU 12 MEHEFIN 2008 YN NHŶ CARADOG, 1-6 PLAS SAN ANDREAS, CAERDYDD CF10 3BE

Comisiwn	Ysgrifenyddiaeth
Parch H Davies (Cadeirydd)	Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mrs S Smith	Mr S Halsall
Mr P Wood	Mr D Carr
	Grant Thornton
	John Golding
	Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru
	Grant Vernon
	Gemma Jones

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Claire Thomas o Grant Thornton ac Ann Marie Harkin o Swyddfa Archwilio Cymru.

1. Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 7 Chwefror 2008.

1.1 Cafodd y rhain eu cytuno a'u mabwysiadu.

2. Materion yn codi.

2.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi cynnal cyfarfod â Chyfarwyddwr Ariannol, Cyngor Celfyddydau Cymru i drafod y posibilrwydd o rannu gwasanaethau ariannol rhwng Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a bod yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol. Bwriedir cynnal cyfarfod o Gadeiryddion holl Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yn fuan er mwyn archwilio'n bellach y posibilrwydd o rannu gwasanaethau. Nododd y Pwyllgor y datblygiad hwn.

2.2 Adroddodd yr Ysgrifennydd bod y mater o drawsnewid system TG yn cael ei ganlyn â Merlin o hyd a bod Isadran Noddi'r Comisiwn bellach yn cymryd rhan er mwyn ceisio symud hwn yn ei flaen.

2.3 Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf. Derbyniwyd ymateb siomedig.

3. Adroddiad Archwiliad Mewnol 2007-08.

3.1 Adroddodd Mr Vernon bod Archwiliad Mewnol 2007-08 wedi'i gwblhau ar ddechrau a'i fod yn foddhaol ar y cyfan. Roedd cwmpas yr arolwg wedi cynnwys rheoli ar lefel uchel, paratoi ar gyfer arolwg etholiadol Cymru gyfan a dilyn ymlaen ar argymhellion y llynedd.

3.2 Roedd holl argymhellion y llynedd wedi'u rhoi ar waith. Gan nad oedd arolwg etholiadol Cymru gyfan at ddechrau hyd yn hwyr yn 2008, seiliwyd arolwg o waith y Comisiwn yn bennaf ar y gweithdrefnau a ddefnyddir ar gyfer arolygon cymunedol cyfredol gan y pennwyd bod y gweithdrefnau sylfaenol yr un ar gyfer y ddau fath o arolwg. Y casgliad cyffredinol oedd bod lefel uchel o gydymffurfio â'r gweithdrefnau a oedd eisoes ar waith. Yn ogystal, gwelwyd bod cryn dipyn o waith paratoi ar gyfer arolwg etholiadol Cymru gyfan wedi ei wneud gan yr Ysgrifenyddiaeth.

3.3 Tynnodd yr archwiliad sylw at ddau achos o bryder a allai gael effaith wrthwynebus ar arolwg etholiadol Cymru gyfan, sef oedi posibl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi trawsnewid system TG y Comisiwn ar waith a bod fersiwn wahanol o feddalwedd Mapinfo ar gyfrifiadur un swyddog arolygu nad oedd yn gytûn â'r fersiwn o MapInfo ar gyfrifiaduron yr holl swyddogion arolygu eraill. Adroddwyd bod Cynulliad Cymru yn ymwybodol o'r ddwy broblem a'i fod yn eu hystyried ar hyn o bryd ond ni wyddys pryd y cânt eu datrys. Cododd yr Archwiliad amryw o fân faterion eraill. Nid oedd Cynulliad Cymru wedi dod â'r mater o Ddatganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol y Comisiwn i ben gan ei fod yn aros am ddiwygiadau o ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Cymru. Gwelwyd bod Cynllun Parhad Busnes y Comisiwn wedi dyddio ac argymhellwyd ei ddiweddaru cyn gynted ag y bo modd a bod yr Ysgrifenyddiaeth yn parhau i'w ddiweddaru. **Cytunwyd** y dylid paratoi papur ar gyfer cyfarfod o'r Comisiwn yn y dyfodol, yn amlinellu'r dewisiadau a'r atebion posibl o ran anallu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu amserlen ar gyfer trawsnewid TG a datrys problem fersiynau meddalwedd MapInfo.

3.4 Byddai'r Dystysgrif Sicrwydd Flynyddol yn cael ei chyhoeddi erbyn mis Gorffennaf 2008. Byddai angen lledaenu archwiliad 2008-09 gan gynnwys arolwg etholiadol Cymru gyfan.

4. Archwiliad o Gyfrifon Blynyddol 2007-08 Adroddiad ISA 260.

4.1 Adroddodd Mr Golding fod yr archwiliad o gyfrifon 2007-08 y Comisiwn wedi'i gwblhau. Roedd canfyddiadau'r Archwiliad yn gadarnhaol heb unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro a dim ond ychydig iawn o ddiwygiadau archwilio i'r cyfrifon. Disgwylir y byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol ar ôl derbyn Llythyr Cynrychiolaeth y Comisiwn. Roedd yr holl argymhellion a wnaed gan archwiliad y llynedd wedi'u rhoi ar waith.

4.2 Ymdriniodd yr adroddiad archwilio ag un pryder o ran arferion cyfrifo ac ariannu'r Comisiwn. Nodwyd bod y Comisiwn wedi bod yn defnyddio meddalwedd cyfrifo Sage gan ddisodli ei hen gronfa ddata ariannol a bod rhai o'r swyddogaethau a wnaed gan gyfrifydd y Comisiwn fel cadw'r llyfr arian parod yn cael eu dyblygu drwy ddefnyddio Sage. Awgrymwyd yn sgil hyn, y dylai'r Comisiwn adolygu'r gofyniad am swyddogaeth gyfrifo allanol. **Cytunwyd** y byddai papur yn cael ei baratoi ar ofynion cyfrifo'r Comisiwn a'i gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

5. Cwynion (eitem sefydlog)

Cyngor Cymuned Dyffryn Clydach

5.1 Adroddodd yr ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu at Glerc Cyngor Cymuned Dyffryn Clydach i'w gynghori am y camau eraill roedd ar gael fel rhan o weithdrefn gwyno'r Comisiwn gan awgrymu efallai y byddai am godi'r mater ag Isadran Noddi'r Comisiwn. Er nad oedd y mater hirfaith hwn wedi'i ystyried yn gŵyn yn erbyn y Comisiwn gan ei fod yn ymwneud â chyhuddiadau a wnaed gan un cyngor cymuned yn erbyn un arall, roedd bellach wedi cyrraedd man lle roedd gweithdrefnau'r Comisiwn ei hun yn cael eu hamau. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn nodi'r ohebiaeth oddi wrth Cyngor Cymuned Dyffryn Clydach yn ffurfiol yn y gofrestr gwynion.

6. Unrhyw Fater Arall

6.1 Nid oedd unrhyw fater arall.